## Yr her:

Yn ystod y cyfnod anodd yma, mae'n bwysig i feddwl am beth sydd yn eich gwneud yn hapus/drist ac i greu atgofion er mwyn adlewyrchu a thrafod mewn blynyddoedd i ddod. Cofiwch i fod yn bositif ac gwneud eich gorau glas – byddwn yn rhan o hanes yn y dyfodol!




## Pwyntiau trafod i rieni:

- Beth ydych wedi mwynhau yn ystod y cyfnod yma?
- Pwy ydych wedi treulio'r cyfnod yma gyda?
- Sut ydych wedi teimlo yn ystod y cyfnod?
- Beth yw eich uchafbwyntiau?
- Beth ydych wedi gweld eisiau fwyaf?
- Oes rhywbeth doniol wedi digwydd i wneud chi chwerthin yn ddi-stop?
- Ydych wedi gwneud rhywbeth newydd yn ystod y cyfnod yma?

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Nid da lle gellir gwell

# Cynllun pythefnos: Capsiwl Atgofion (Bl 1 & 2)

## Rhaid gwneud...

| | | |
|---|---|---|
| • Dysgu geiriau sillafu wythnosol. Mae'r geiriau ar Spell j2blast i'w ymarfer!<br>• Darllen yn reolaidd– cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd. | • Ymarfer tablau mathemateg (Bl 1 - tabl 1, 2, 5 a 10/Bl2 - tablau 1, 2, 5 a 10 i ddechrau a thabl 3 fel her!)<br>• Mathemateg - Bondiau rhif hyd at 100 - adio a thynnu.<br>• Adnabod a chyfrif cyfansymiau arian<br>• Adnabod amser e.e. o'r gloch, hanner awr wedi, chwarter awr wedi a chwarter i. | • Joe Wicks - sesiwn fyw ar 'YouTube' am 9:00yb<br>• Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>• Cosmic Kids Yoga - sesiwn ar 'YouTube'<br>• Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.<br>• Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb. |

## Dylech wneud...

| Llythrennedd | Rhifedd | Thema |
|---|---|---|
| Ewch ati i greu hunan-bortread. Cofiwch i gynnwys ffeithiau am eich hun e.e. enw, oed, lliw gwallt, lliw llygaid, hoff liw, hoff fwyd, hoff degan, hoff chwaraeon, hoff anifail, eich hoff a chas bethau. | Gofynnwch yn gwrtais aelodau eich teulu a ffrindiau 'Beth yw eich oed?' Trefnwch oed yr aelodau o'r ifancaf i'r hynaf. Cofnodwch rhain ar Hwb. Fel her, beth am drefnu blwyddyn geni yr aelodau? | Ewch ati i greu ac addurno capsiwl atgofion (bocs). Yn y bocs, cofiwch lenwi'r bocs gyda'r pethau oedd yn bwysig i chi yn ystod y cyfnod yma e.e. lluniau, hoff rysait, hoff degan, cerrig wedi peintio, darn o waith o'r ysgol, llythyr oddi wrth Mr Davies ayyb. |
| Beth am greu rhestr 'i wneud' yn dilyn y cyfnod clo/clo mawr? Bydd rhaid i chi feddwl am bobl hoffech weld, lefydd hoffech chi fynd, bwyd hoffech fwyta, chwaraeon hoffech chwarae, gweithgareddau hoffech wneud e.e. mynd i'r parc/traeth, rhoi cwtsh i aelod o'r teulu, bwyta mewn bwyty ayyb. | Ewch ati i ofyn aelodau'r teulu a ffrindiau 'Pryd mae eich penblwydd'? Nodwch y mis ac ewch ar Hwb i greu graff penblwyddi. Rhaid nodi misoedd y flwyddyn a'r nifer o bobl sy'n dathlu penblwydd yn ystod y mis hynny. Rhannwch y graff gyda ni! Gallwch chi hyd yn oed ofyn eich athro/athrawes beth yw ei mis penblwydd nhw! | Ydych chi'n hoffi tynnu hun-lun (selfie) ar ffôn? Tynnwch hun-lun gydag aelodau'r teulu bob dydd am wythnos (cofiwch ofyn am ganiatad). Yna, gyda rhiant ewch ati i greu pic-collage o'r hun-luniau yma i gyd. #wythnosynycyfnodclo Bydd eich athrawon yn dwli gweld y lluniau yma ar Trydar @ParcyTywyn/Hwb neu ebost! |
| Ydych chi wedi gweld neges mewn potel o'r blaen? Fel arfer mae'n neges o'r gorffennol - felly beth am greu un eich hun ar gyfer pobl y dyfodol yn disgrifio'r adeg anghyfarwydd yma? Cofiwch i roi dyddiad a beth rydych wedi bod yn gwneud i gadw'n brysur! Cofiwch y berfau personol e.e. bwytais, cerddais, chwaraeais, mwynheuais, ni fwynheuais ayyb. | Recordiwch eich hunan yn canu cân 'Misoedd y flwyddyn' ar Hwb. Meddyliwch am ddigwyddiadau pwysig e.e. Eisteddfod, penblwydd aelodau'r teulu, Dydd Gwyl Dewi, Nadolig ayyb. Nodwch y misoedd yn y drefn cywir ac ychwanegwch y digwyddiadau i fynd â'r mis cywir. | Beth yw eich blwyddyn geni chi? Chwiliwch am ffilm gyda chymorth oedolyn (e.e. Disney neu ffilm Gymraeg) sydd yr un oed a chi! Gwyliwch a mwynhewch y ffilm gyda'ch teulu! Ar ôl gwylio'r ffilm, gofynnwch eich gilydd cwestiynau yn seiliedig ar y ffilm (Y gadair goch)e.e. Pwy oedd y prif gymeriad? Pwy yw'r cymeriad drwg? Beth ddigwyddod yn y ffilm? Pwy yw eich hoff gymeriad a pham? |

## Gallaf wneud...

| | | |
|---|---|---|
| Heriau LEGO | Minecraft | Dawnsio gyda Oti Mabuse |

| | | |
|---|---|---|
| Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround – darllen y newyddio diweddaraf<br>ACTIV-I-TI – ar lein o 1:00yp<br>Science experiment<br>Science Investigations – STEM website<br>stemsational.com<br>Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim<br>www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd<br>UKTWINKLHELPS<br>Zumba Kids | Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman – 'My Maths School'<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU – gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar Facebook<br>Celf Helen Elliot – Pob dydd mercher a Gwener am3:00yp<br>Orielodl – fideo cam wrth gam<br>Criw Celf, Huw Aaron – pob dydd am 3y.p<br>Llifo'n Llawen – Yoga<br>Just Dance – 'Youtube' | PBSkids.org - Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg<br>mathsalamanders.com<br>Gwersi canu gyda Myleene Klass am 10:00 yb<br>Coginio gyda Jamie Oliver am 12:00 yp<br>Traed Bach Sionc (Busy Feet) - Youtube |